**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL MEHEFIN 2020**
4 Mehefin 2020 7.00- cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Gruff Williams, Erddyn Davies, Dafydd Iwan, Math Williams, Wynn Roberts

Huw Orwig yn bresennol am ran byr iawn o'r cyfarfod yn unig oherwydd problemau technegol

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Mirain Llwyd Owen, Emyr Williams

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 14 Mai 2020 — Cynnig: Dafydd Iwan
Eilio: Erddyn Davies

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Doedd y Cynghorydd Peter Garlick ddim yn bresennol i fedru rhoi diweddariad ar gynllun Cyngor Gwynedd i leihau goryrru yn Llanfaglan.

Roedd hi'n wybyddus fod Watkin Jones wedi ail ddechrau'r gwaith o adeiladu Cae Capel ym Montnewydd.

### 4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

**Sefyllfa ariannol:**

Arian yn y banc 2/6/20: £1200
Arian mewn llaw: £0
Arian i'w dalu am wasanaethau: tua £155
Arian yn ddyledus gan ddefnyddwyr ers cyn y cyfyngiadau symud: tua £400
Gwariant misol: debid uniongyrchol trydan a nwy yw £113 (£142/mis cyn y mis Mehefin); dim tâl Gofalwr
Taliadau ers y mis diwethaf: Dŵr £96; a £1680 am gynlluniau pensaer a Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu (Cyngor Gwynedd) am y gwaith arfaethedig i'r ystafell ymgynnull newydd a drysau tân.

Mae cytundebau trydan (SP) a nwy (BG) wedi eu hadnewyddu am ddwy flynedd - hyn i osgoi dychwelyd i'r Standard Variable Tariff sydd llawer drutach.

**Gwaith cynnal a chadw ers mis Mawrth:**
Dim

**Ar y gweill:**
Dim newid ers mis Mawrth heblaw:

- cynlluniau gorffenedig gan y pensaer am yr ystafell ymgynnull newydd a chaniatad amodol gan Wasanaeth Rheolaeth Adeiladu

- aros am brisau gan dau adeiladwyr i osod croen plastic ar y barge a fascia boards a newid y gwteri/landeri.

**MATERION ARIANNOL**

**5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mawrth 2020**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**5.2 Cyflog a Chostau Clerc Ebrill 2020**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**5.3 Cyflog a Chostau Clerc Mai 2020**
£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**5.4 Ad-dalu'r Clerc taliad PWLB Mawrth 2020** £406.35

**5.5 Ad-dalu Gruffudd Williams am gostau gwefan.**

**Anfoneb 123 Reg rhif 123-037121161** £8.38

**Anfoneb Wix.Com dyddiedig 3 Mawrth 2020** £122.40

**5.6 Derbyn taliad cyntaf y Praesept 2020/21** £9,250 **16 Mai 2020**

**5.7 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2018/19**

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2018/19

**5.8 Archwiliad Mewnol 2019/20 a Ffurflen Flynyddol 2019/20**

Bu i Gyngor Gwynedd gwblhau'r archwiliad mewnol gan dynnu sylw at ddau fater y dylid rhoi ystyriaeth er mwyn lliniaru risg:-

- Sicrhau fod prisiad asedau ar gyfer pwrpasau yswiriant yn gyson â'r gofrestr asedau

- Sicrhau fod cyfrifon archwiliedig diweddaraf y Cyngor ar gael yn electronig

Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2019/20, ac fe'i danfonir ymlaen at yr Archwilydd Allanol.

## 6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

## 7. GOHEBIAETH

- Cafwyd llythyr gan Tarian Cymru yn gofyn am gyfraniad ariannol i'w hymgyrch i godi £15,000 er mwyn cynhyrchu offer PPE.

Cytunwyd mewn egwyddor i gyfrannu £500, ond gofynnwyd i'r Clerc ddanfon yr e-bost a gafwyd gan Tarian Cymru i bob aelod a gofyn am eu cadarnhad i gyfrannu £500.

## 8. MATERION ERAILL

### 8.1 Trefniadau oherwydd COVID-19

Cytunwyd fod y trefniadau cyfarfod o bell drwy gymorth Zoom yn gweithio yn gymharol effeithiol ar y cyfan.

Gofynnwyd i'r Clerc holi'r Cynghorydd Peter Garlick er mwyn gweld a fedrai'r cyngor cymuned fod o gymorth iddo wrth helpu'r trigolion lleol oherwydd COVID-19.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Age Cymru er mwyn gweld a fedrai'r cyngor cymuned fod o gymorth iddynt mewn unrhyw ffordd. Deallir eu bod yn mynd â bwyd poeth i gartrefi yn lleol.

### 8.2 Cwyn gan Aelodau'r Cyhoedd Arwyddion Covid-19

Cafwyd e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn cwyno am yr arwyddion yn datgan "COVID-19 Idiots go home" ger cylchdro'r Goat yn Llanwnda.

Cytunwyd nad oedd yr arwyddion o bosibl yn cyfleu neges i rai oedd wedi teithio o bell i gadw draw, yn y ffordd orau.

Fodd bynnag, y prif broblem oedd anwybodaeth trigolion Lloegr fod y rheoliadau a chanllawiau COVID-19 yng Nghymru yn wahanol i Loegr. Anaml iawn y cyfeiriwyd at hyn gan y Llywodraeth yn San Steffan a phrif gyfryngau Prydain.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford, Sian Gwenllian a Hywel Williams gan ofyn iddynt ddwyn mwy o bwysau ar Lywodraeth San Steffan i bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr.

Gofynnwyd hefyd i'r Clerc ysgrifennu at yr aelod o'r cyhoedd yn dweud fod Cyngor Cymuned Y Bontnewydd wedi trafod y mater ac wrthi'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y rheoliadau COVID a'r cyfyngiadau ar ymwelwyr i Gymru mewn cymhariaeth â Lloegr.

Gan nad oedd yr arwyddion yn nhiriogaeth Cyngor Cymuned Y Bontnewydd, yna doedd hi ddim yn bosibl i'r cyngor cymuned wneud dim pellach, ac awgrymwyd y dylent ysgrifennu at Gyngor Gywnedd os oeddynt yn parhau yn anhapus, er mae'n debyg mai ychydig o bwerau fyddai gan Gyngor Gwynedd yn enwedig os oedd yr arwyddion ar eiddo preifat.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Gorffennaf 2020 am 7 yr hwyr drwy gyfrwng cyswllt fideo.**